# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mai 12fed 2026**

**COFNODION**

DRAFT

**1. Presennol:**
Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Aled Griffith, Cyng. Sarah Williams, Cyng. Llywelyn Rhys, Cyng. Carol Hayes, Cyng. Michael Roberts, Cyng. Glenda Murray, Cyng. Jeremy Davies.
Elfyn Lewis (Clerc).

**2. Ymddiheuriadau:**
Cyng. Dr. Melfyn Edwards, Cyng. Karena Owens.

**Absennol:**
Cyng. Edward Naish.

**3. Cadarnhau cywirdeb cofnodion:-**
**Cyfarfod Llawn Ebrill 2026**
Derbynwyd yn gywir. Cyng. Aled Griffith yn cynnig. Cyng. Glenda Murray yn eilio**.**
**Cyfarfodydd Cyllid ac Eiddo Ebrill 28ain, 2026**
Derbynwyd yn gywir. Cyng. Aled Griffith yn cynnig. Cyng. Glenda Murray yn eilio.

**4. Adroddiad y Cadeirydd.**
Roedd hi'n dda gweld bod Cyngor Gwynedd wedi cyflogi gweithiwr i lanhau strydoedd Porthmadog yn ddyddiol.
Bydd angen cysylltu gyda David Charles o'r Tim Tacluso i ofyn iddo os yw'n bosib i glirio'r Stryd Fawr a'r strydoedd cefn o chwyn unwaith eto.
Roedd sawl cwyn wedi ei dderbyn ynglyn a gor-yrru yn yr ardal. Roedd hyn yn broblem barhaus a roedd angen cysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r heddlu i ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol am ddelio gyda'r broblem.

**5. Adroddiad y Clerc.**
**Cae Chwarae Bodawen.**
Roedd Y Clerc a'r Cadeirydd wedi cyfarfod cynrhychiolwyr o Fisher German, Y Grid Cenedlaethol a Murphys ar y safle ar Ebrill 30ain er mwyn cael diweddariad ar amserlen y gwaith o ail-osod y ceblau trydannol o dan Cae Chwarae Bodawen.
Bwriedir dechrau ar y gwaith ar Fedi 21ain, 2026 drwy cael gwared o'r tyfiant o'r tir.
Yn ystod Chwefror 2027 bydd y ffensus o gwmpas y safle yn cael eu tynnu i lawr er mwyn cael mynediad i beriannau mawr.
Yn ystod Awst 2027 bydd yr haenan ucha o'r pridd yn cael ei godi o'r safle.
Rhagwelir y bydd y gwaith i gyd wedi ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2030 a bydd y safle ynghyd a parc gyda offer newydd yn trosglwyddo yn ol i'r Cyngor Tre.
Bydd rhaid i'r Cyngor Tref gael les byr-dymor o'r tir y mae'r ceblau yn mynd oddi tano hyd nes fydd y gwaith yn dechrau a wedyn les hir-dymor unwaith bydd Y Grid Cenedlaethol wedi gorffen y gwaith.
Mae'r Clerc am gyd-weithio gyda Dylan Herbert o'r Grid Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol y bydd y parc ddim ar gael am gyfnod a bydd parc gyda

offer newydd ar y safle ar ol cwblhau'r gwaith.

Digwyddiadau i ddathlu bywyd Eifion Wyn:
Cafwyd diweddariad gyda'r trefniadau gan y Cyng. Glenda Murray. Mae'r pwyllgor trefnu wedi bod yn brysur yn trefnu'r digwyddiadau.
Hydref 8fed – Cyngerdd yn Y Ganolfan, Porthmadog.
Hydref 13eg – Darlith gan Gwynne Wheldon-Evans yn Capel y Porth, Porthmadog.
Hydref 18fed – Cymanfa Ganu yng Nghapel Peniel, Tremadog.

Bydd rhaid cyflwyno ceisiadau grant Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd (Gwynedd Ni) erbyn Mehefin 15fed.
Cynigiwyd bod y Cyngor Tref yn ystyried y posiblrwydd o ddefnyddio y grant i gael mwy o flodau yn Y Stryd Fawr, i wella cyflwr llwybr Peniel yn Nhremadog, i wella Y Parc ym Mhorthmadog (Y Clerc i drafod gyda Chyngor Gwynedd y posiblrwydd o'r Cyngor Tre yn mabwysiadu'r Parc) ac i dalu am fwrdd gwybodaeth Eifion Wyn yn Y Parc.

**6. Datgan diddordeb.**
Dim datganiad.

**7. CEISIADAU CYNLLUNIO:**

YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO: Rhif Cais: C26/0147/44/DT - ST ENADOC Ffordd Yr Eglwys, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TY
**Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ond nodi pryderon pobl lleol bydd loriau a cerbydau yn gallu creu trafferthion yn ystod y gwaith.**

Rhif Cais C25/0946/44/EIA
Lleoliad: Land Along The A483 Corridor, Porthmadog.
Bwriad:
Estyniad i gompownd ceblau selio pen presennol Wern gan gynnwys mynediad parhaol newydd, Compownd selio pen newydd ac adeilad pen twnnel gyda mynediad parhaol ym Minffordd; tynnu compownd selio pen presennol Garth; gosod ceblau 400 cilofolt (kV) newydd i ddisodli ceblau 400 kV a 132 kV di-angen; ac isadeiledd a gwaith atodol cysylltiedig.
**Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.**

Rhif Cais: C26/0262/44/LL
Lleoliad: Gwasanaeth Tân Ac Achub Gogledd Cymru, FIRE STATION Ffordd Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HR
Bwriad: Cais i osod tanc i storio tanwydd Olew Llysiau Hydrodrio.
**Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.**

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF:**
Dim i'w drafod.

**9. <u>MATERION I'W DWYN GERBRON:</u>**

**Cyng. Aled Griffith:**
Cynnig bod Y Cyngor Tre yn gyrru llythyr i Cyngor Gwynedd i holi a oes unrhyw cynllun i adeiladu unedau busnes yn Mhorthmadog yn y dyfodol.

**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i nodi pryderon Y Cyngor Tre bod Porthmadog yn methu allan unwaith eto ar y cyfle i ddenu mwy o fusnesau i'r ardal ac iddynt ystyried adeiladu mwy o unedau busnesau yn y dref.**

**Cyng. Aled Griffith:**
Cynnig bod Y Cyngor Tre yn gyrru llythyr i Cyngor Gwynedd i holi pam nad yw Porthmadog mewn yn y cynllun isod.
https://www.facebook.com/share/p/1CZRgxEkjD/?mibextid=wwXIfr
Sef Cronfa Uwchraddio Eiddo Masnachol Canol Trefi (Bangor a Phwllheli) Cyngor Gwynedd:
"Gall perchnogion eiddo masnachol yng Nghanol Dinas Bangor a Chanol Tref Pwllheli wneud cais am grantiau i wella ymddangosiad allanol eu hadeiladau.
Grantiau rhwng £2,500 a £10,000
Hyd at 70% o gyllid ar gael
Mae gwaith cymwys yn cynnwys paentio, arwyddion newydd, ffenestri, drysau a gwelliannau eraill i adeiladau."
**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i holi pam nad oedd Porthmadog yn rhan o'r ceisiadau grant yma.**

**10. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**:

**Cyng. Alwyn Gruffydd:**
Cynnig bod y Cyngor Tre yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i holi pam nad yw arwydd stryd Heol Dulyn yn Nhremadog wedi ei ail-osod fel yr oedd Cyngor Gwynedd wedi ei addo.

**Cyng. Llywelyn Rhys:**
Cynnig bod y Cyngor Tre yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i nodi bod cyflwr llwybr cyhoeddus Lon Haearn Bach rhwng Ganolfan Hamdden Glaslyn a Ffordd Penamser mewn cyflwr gwael ac yn anodd i'r cyhoedd i'w gerdded.

**Cyng. Llywelyn Rhys:**
Cynnig bod y Cyngor Tre yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a Trafnidiaeth Cymru i holi pam nad yw bysus T2 yn stopio wrth y mannau aros priodol ar Ffordd Penamser.

**11. Gohebiaeth - Rhestr Aros am Ateb:**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sarah Hughes Heddlu Gogledd Cymru | Adroddiad am troseddau yn Cae Pawb.<br>**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda'r Heddlu unwaith eto.** |

**12. GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Arolwg Ordnans | Ateb i lythyr Cyngor Tre.<br>**Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.** |
| 2 | Ben Humphries | Llythyr cais cyfethol.<br>**Penderfyniad: Cyfetholwyd Ben Humphries i sedd ar Ward** |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | **Tremadog ar Gyngor Tref Porthmadog. Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Jeremy Davies yn eilio. Derbynwyd yn unfrydol.** |
| 3 | RJ Electrics | Noson goleuo Port 2026<br>**Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.** |
| 4 | Layla Birks | Ras y Cob.<br>**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda Layla i fynegi bod Y Cyngor Tref yn cefnogi'r bwriad i ail-ddechrau Ras y Cob mewn egwyddor.** |
| 5 | Clare Deakin | Llwybr Tremadog.<br>**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda Clare Deakin i ddatgan eu cefnogaeth.** |
| 6 | Chloe Howell | Perthyn - cefnogi cymunedau ar draws Gwynedd.<br>**Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.** |
| 7 | Y Ganolfan | Cais am barcio am ddim.<br>**Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.** |
| 8 | Wi-fi cymunedol | Diweddariad.<br>**Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.** |
| 9 | Robin Asby | Cais am gael sgip i Cae Pawb.<br>**Penderfyniad: Y Clerc i drefnu llogi sgip i Cae Pawb.** |

**<u>13. MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Incwm parcio | £10,095.49 |
| Cyngor Gwynedd | Praesept rhan 1 | £38,007.68 |
| HSBC | Llog banc hyd at Ebrill 19, 2026 | £39.02 |

**Taliadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a we Ebrill 2026 | £60-67 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Ebrill 2026 | £1408.58 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Ebrill 2026 | £352.14 |
| 4 | Cyngor Gwynedd | Difa Pla | £330 |
| 5 | Jeremy Davies | Lwfans cynghorwyr | £208 |
| 6 | Glenda Murray | Lwfans cynghorwyr | £208 |
| 7 | Michael Roberts | Lwfans cynghorwyr | £208 |
| 8 | Llywelyn Rhys | Lwfans cynghorwyr | £208 |
| 9 | Karena Owens | Lwfans cynghorwyr | £208 |
| 10 | Alwyn Gruffydd | Lwfans cynghorwyr | £208 |
| 11 | Dr. Melfyn Edwards | Lwfans cynghorwyr | £208 |
| 12 | Aled Griffith | Lwfans cynghorwyr | £156 |
| 13 | Trevor Jones | Lwfans cynghorwyr | £104 |
| 14 | Cadeirydd | Lwfans Cadeirydd | £1,200 |
| 15 | Clear Councils | Polisi yswiriant cyngor lleol. | £2,251.82 |
| 16 | Cymdeithas | Tal cynnal a chadw (£3 o bil pob tenant) | £156 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhandiroedd Cae Pawb. | | |
| 17 | Archwilio Cymru | Archwiliad Cymru | £680 |
| 18 | Y Ganolfan | Rent Swyddfa a llogi ystafell cyfarfodydd Ebrill 2026-7. | £5200 |

Cymeradwywyd y taliadau. Cynnig. Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Alwyn Gruffydd yn eilio.
Derbynwyd yn unfrydol.

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Elfyn Lewis (Clerc)
Mai 18eg, 2026

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*

DRAFFT